# PWYLLGOR APELAU

Dydd Gwener, 9 Hydref 2015

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.K. Howell (Chair)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, W.G. Hopkins, B.A.L. Roberts, S.E. Thomas a/ac J. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
C. Jones, Cyfreithiwr Cynorthwyol
R. Young, Dirprwy Reolwr Adnoddau Dynol
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
**Ystafell Pwyllgor 2 - 3 Heol Spilman - 9.00 - 11.20 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd J.P. Jenkins

## 2. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 3. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 na fyddai'r cyhoedd yn cael aros yn y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn datgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffiniwyd hynny ym Mharagraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007, sef gwybodaeth a fyddai'n debygol o ddadlennu enw unigolyn.**

## 4. YSTYRIED APEL YN ERBYN DISWYDDO - ADRAN YR AMGYLCHEDD

**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 3 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddid yn datgelu gwybodaeth eithriedig a fyddai'n debygol o ddadlennu pwy oedd yr unigolyn dan sylw.**

**Roedd prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud ag enw'r apelydd a manylion personol eraill, sef data personol yn unol â'r diffiniad yn Adran 1 o Ddeddf Diogelu Data 1988. Nid oedd y mater a fyddai'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn fater budd cyhoeddus. Byddai datgelu'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad yn annheg ac yn groes i hawl yr apelydd i gael preifatrwydd. Felly ar ôl clorianu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cynnwys yr adroddiad yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r**

**cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i'r apelydd, ei chynrychiolydd undeb llafur, ynghyd â'r cynrychiolwyr adrannol ac Adnoddau Dynol gan amlinellu'r protocol y byddid yn ei ddilyn wrth wrando ar yr apêl (yr oedd copïau wedi'u dosbarthu eisoes gydag agenda'r cyfarfod ac wedi'u dosbarthu yn y cyfarfod).

Gan hynny, gwrandawodd y Pwyllgor ar dystiolaeth gan y cynrychiolydd adrannol, a chan yr apelydd a'i chynrychiolydd undeb llafur.

Cafodd y ddwy ochr gyfle i groesholi ynghylch y dystiolaeth a roddwyd ac i grynhoi. Ar ôl gwneud hynny, gadawodd y ddwy ochr y cyfarfod tra oedd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth a’r sylwadau a gyflwynwyd.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, ynghyd â'r sylwadau a wnaed gan yr apelydd a'r cynrychiolydd adrannol:-

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r apêl**

| | |
|---|---|
| ______________________________ | ______________________ |
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |